

Ysbrydoli pobl, newid bywydau Cynigion ar gyfer ein Gweledigaeth newydd o 2015 ymlaen

Dros y 12 mis diwethaf, mae Amgueddfa Cymru wedi bod yn datblygu Gweledigaeth newydd ar gyfer y 10 mlynedd nesaf.

Mae 10 mlynedd wedi pasio ers i ni ddatblygu a chyhoeddi ein Gweledigaeth ddiwethaf. Rydym wedi cyflawni llawer ohoni, gan gynnwys creu Amgueddfa Gelf Genedlaethol ar lawr cyntaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd gan greu 40% yn fwy o ofod arddangos. Cyflwynwyd cais llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru a bellach mae project ailddatblygu gwerth £25.5 miliwn yn mynd rhagddo yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.

Mae'r byd wedi newid tipyn dros y degawd diwethaf hefyd. Rydym wedi ceisio datblygu Gweledigaeth newydd a fydd yn sicrhau perthnasedd ein gwaith dros y 10 mlynedd nesaf, gan gydnabod ein llwyddiannau allweddol a'u datblygu ymhellach. Bydd hyn yn ein galluogi i barhau â phrojectau mawr eraill, yn eu plith ailddatblygu Sain Ffagan a chreu Amgueddfa Genedlaethol Hanes Natur ar lawr gwaelod Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Amgaeaf ddogfen fer (sydd hefyd ar gael ar ein gwefan) sy'n cyflwyno ein datganiad Gweledigaeth, ein pwrpas, ein hymrwymiaidau a map arfaethedig. A fyddech cystal â rhannu eich sylwadau ynghylch y ddogfen hon â ni? Gofynnwn i chi ganolbwyntio ar y cwestiynau canlynol wrth wneud:

1. Beth yw eich barn am ein datganiad Gweledigaeth ar gyfer y degawd nesaf?
2. Ydych chi o'r farn fod ein datganiad o bwrpas yn esbonio rôl Amgueddfa Cymru yn llawn?
3. Ai dyma'r amcanion y byddech yn disgwyl i Amgueddfa Cymru eu cyflawni dros y degawd nesaf yng Nghymru? A oes unrhyw amcanion lefel uchel eraill y dylem eu hystyried?
4. Ar fap y Weledigaeth, nodir 'sut y byddwn yn eu cyflawni' a 'sut y byddwn yn newid' – dyma'r sail i gyflawni ein hymrwymiaidau. A allech chi gydweithio â ni i gyflawni'r ddau grŵp yma o amcanion? Os felly, pa amcanion, a sut?

Rydym yn edrych ymlaen at glywed gennych. Byddem yn gwerthfawrogi eich cymorth a'ch cefnogaeth wrth i ni groesawu cyfleoedd newydd a pharhau i weddnewid Amgueddfa Cymru yn gorff cynaliadwy sy'n darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau perthnasol i bobl Cymru dros y degawd nesaf a thu hwnt. Bydd eich cyfraniad chi yn helpu i lywio datblygiad Cynllun Strategol manylach.

Yn gywir,

David Anderson, Cyfarwyddwr Cyffredinol

Amgueddfa Cymru, Parc Cathays, Caerdydd. CF10 3NP

gweledigaeth@amgueddfacymru.ac.uk

Ysbrydoli pobl, newid bywydau

Cynigion ar gyfer ein Gweledigaeth newydd o 2015 ymlaen

Datganiad gweledigaeth



Ysbrydoli pobl, newid bywydau

Ein pwrpas: trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd.

Ein hymrwymadau

Dros y 10 mlynedd nesaf, rydym am gyflawni'r pum ymrwymiad canlynol ar ran ein rhanddeiliaid, pobl Cymru, ein hymwelwyr a'n cefnogwyr:

Newid bywydau trwy weithio gyda chyrrff lleol a chenedlaethol i greu Cymru hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, lle mae diwylliant yn hygyrch i bawb a'r economi'n ffynnu. (Gwneud gwahaniaeth i Gymru)

Mae ymwelwyr yn cael profi amgueddfeydd, arddangosfeydd, a gofodau cyhoeddus o ansawdd uchel lle gallant ddysgu a mwynhau. (Profiad amgueddfa)

Mae defnyddwyr yn cael profi amgueddfa ddigidol hygyrch a chydgysylltiedig gan ymgysylltu, bod yn greadigol a dysgu. (Profiad ar-lein)

Mae gan bawb gyfoeth o gyfleoedd i ddysgu, ymchwilio a chreu. (Addysg a chreadigrwydd)

Mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trawsddiwylliannol, cynhwysol a hygyrch a luniwyd ganddynt. (Cyfranogiad a chynhwysiant)

Sut byddwn ni'n cyflawni'r ymrwymadau hyn?

Gwneud gwahaniaeth i Gymru

Bydd effaith ein gwaith i'w deimlo ymhell tu hwnt i'n hamgueddfeydd, gan helpu i greu economi sy'n ffynnu a Chymru iachach, hapusach a mwy cynaliadwy. Byddwn yn sicrhau fod cyrrff, busnesau ac unigolion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn gallu defnyddio'n cynnyrch mewn llawer o ffyrdd cyffrous a chreadigol, lawer ohonynt yn ffyrdd na ellid eu rhagweld gennym.

Bydd ein rhaglenni yn berthnasol i brofiadau pobl Cymru er mwyn creu cenedl sy'n deall ei thirwedd, ei hadnoddau, ei bioamrywiaeth, ei chelf, ei hanes a'i diwylliant yn well. Bydd pobl am ymweld â hi a buddsoddi ynddi.

Byddwn yn cynllunio ein gwaith ymchwil â phartneriaid er mwyn sicrhau y caiff yr effaith orau a byddwn yn rhannu ein gwybodaeth a'n casgliadau sy'n rhan annatod o seilwaith gwyddonol a diwylliannol ein gwlad. Trwy hyn, bydd yn gallu cyfrannu at fynd i'r afael ag anghenion a materion cyfredol.

Profiad amgueddfa

Dros y 10 mlynedd nesaf, rydym am droi profiad amgueddfa ar ei ben, gan greu diwylliant newydd o gyfranogiad cyhoeddus. Caiff ymwelwyr amgylchynu eu hunain â'n casgliadau gan ddatblygu straeon ysbrydoledig a rhoi sbardun iddynt newid eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Eiddo pobl Cymru yw ein casgliadau, a byddwn yn gweithio gyda nhw a'n holl ymwelwyr i adrodd straeon mewn ffyrdd newydd, cyffrous a chreu amgylchedd i drafodaeth gyhoeddus. Byddwn yn sicrhau fod pawb sy'n cyfathrebu â ni yn cael croeso ac yn gadael gydag awch i ddysgu mwy am y byd o'u cwmpas.

Profiad ar-lein

Bydd profiad ar-lein ein hymwelwyr yn eu hysgogi a'u denu. Bydd Amgueddfa Cymru yn defnyddio platfformau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol er mwyn cyfathrebu a darparu gwybodaeth i ymwelwyr newydd a chyfredol, gan ddefnyddio ein casgliadau a'n gwybodaeth er pleser, er dysg ac er mwyn cymryd rhan. Ein hymwelwyr, ein staff a'n rhanddeiliaid fydd yn llywio'r profiad ar-lein gan ddefnyddio technoleg ddigidol i wella ein dehongli, profiad yr ymwelydd a'r ymgysylltu. Bydd y platfformau ar-lein yn gwella mynediad at y casgliadau, ac yn creu cyfleoedd gwell i gymryd rhan yn ein gweithgareddau.

Addysg a chreadigrwydd

Addysgu trwy ymgysylltu â diwylliant yw prif rôl Amgueddfa Cymru. Bydd ein haddysg ddwyieithog yn seiliedig ar ymchwil ac yn gallu ymateb i anghenion newidiol ein dysgwyr a'n hymwelwyr, a datblygu er mwyn eu diwallu. Bydd dysgu yn hwyl ac yn creu cysylltiadau, yn arbrofol ac yn ysgogol, yn gymdeithasol a dan arweiniad y dysgwr, yn brofiad ac yn annog meddwl, yn ymarferol ac yn ymdrochol. Bydd yn digwydd ym mhob un o'n hamgueddfeydd a thu hwnt iddynt; bydd yn gwneud defnydd o'n casgliadau amrywiol, yn cyfrannu at ein gwaith ac yn cael ei lywio gan sgiliau ac arbenigedd ein staff, ein partneriaid a'n hymwelwyr amrywiol. Byddwn yn llwyfan i ddysg gyhoeddus ddwyieithog ac i ymchwil addysg ddiwylliannol.

Cyfranogiad a chynhwysiant

Byddwn yn creu amgueddfa ddeinamig, gyfranogol a chynhwysol trwy drafod rôl amgueddfa, herio rhagdybiaethau a chreu gofodau amgueddfa cymdeithasol a chynhwysol drwy agor y drws ar ein harferion gwaith. Byddwn yn datblygu gwahanol ffyrdd o gymryd rhan ac yn ymgysylltu ar lefel ddwys â'r rheini sydd angen cymorth i gymryd rhan. Byddwn yn rhannu ein syniadau, ein gwaith a'n huchelgeisiau â chyfranogwyr newydd a chyfredol, gan rannu ein profiadau cyffredin i lywio a datblygu ein diben a deall ein cyfranogwyr amrywiol yn well.



ysbrydoli pobl, newid bywydau

Ein pwrpas: trwy ein hamgueddfeydd a'n casgliadau, ysbrydoli pobl i feithrin eu hunaniaeth a'u lles; i ddarganfod, mwynhau a dysgu'n ddwyieithog a deall lle Cymru yn y byd.

Ein hymrwymiaidau

Gwneud gwahaniaeth i Gymru: newid bywydau trwy weithio gyda chyrrff lleol a chenedlaethol i greu Cymru hapusach, iachach a mwy cynaliadwy, lle mae diwylliant yn hygyrch i bawb a'r economi'n ffynnu.

Profiad amgueddfa: mae ymwelwyr yn cael profi amgueddfeydd, arddangosfeydd, a gofodau cyhoeddus o ansawdd uchel lle gallant ddysgu a mwynhau.

Profiad ar-lein: mae defnyddwyr yn cael profi amgueddfa ddigidol hygyrch a chydgysylltiedig gan ymgysylltu, bod yn greadigol a dysgu.

Addysg a chreadigrwydd: mae gan bawb gyfoeth o gyfleoedd i ddysgu, ymchwilio a chreu.

Cyfranogiad a chynhwysiant: mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yng Nghymru a thu hwnt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau trawsddiwylliannol, cynhwysol a hygyrch a luniwyd ganddynt.

Sut y byddwn yn eu cyflawni

Projectau gweddnewid: cynllunio a chyflawni projectau sy'n gweddnewid ein gwasanaethau a'r ffordd rydym yn eu darparu.

Eiriolaeth a chyfathrebu: hyrwyddo a marchnata ein gwaith gwerthfawr ac amrywiol yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Amgueddfa ddigidol gydgyssylltiedig: gwella ansawdd, hygyrchedd ac argaeledd ein casgliadau a'n gwasanaethau ar-lein.

Partneriaethau strategol: meithrin partneriaethau corfforaethol er mwyn cynyddu effeithiolrwydd ein gwaith a gwaith ein partneriaid.

Rhaglenni cyhoeddus: cynllunio a darparu arddangosfeydd, digwyddiadau a gweithgareddau sy'n ysbrydoli, yn ein hamgueddfeydd a thu hwnt.

Datblygu gwybodaeth: ymestyn ein gwybodaeth o'n casgliadau a'n cynulleidfaoedd trwy ymchwil academiaidd a gwaith dadansoddi gwreiddiol ac annibynnol sy'n diwallu anghenion y cyhoedd a'r sefydliad.

Perfformiad ariannol a llywodraethu: llwyddo i berfformio, llywodraethu a rheoli arian yn ardderchog a gwella ein cynaliadwyedd ariannol.

Sut y byddwn yn newid